CYFRES C11

amserbeibl

Storïau o'r Beibl – Safon 1

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oed Dyddiad geni

Enw

Cyfeiriad

Enw Arweinydd y Dosbarth

Lliwiwch y lluniau yn y storïau hyn o'r Hen Destament

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th

DARLLENWCH
Jona 1: 1-9

Mae'r stori hon yn sôn am:
Duw'n gwybod y cyfan amdanom

Stori 1 Jona yn y Llong

Roedd Jona yn gwasanaethu Duw fel proffwyd - rhywun fyddai'n dweud wrth bobl beth oedd neges Duw. Un diwrnod, dywedodd Duw wrth Jona am fynd i ddinas fawr o'r enw Ninefe. Yno, roedd i rybuddio'r bobl ddrwg y byddai Duw yn eu cosbi, oherwydd roedd Ef wedi gweld eu pechodau.

Siarad â phwy wnaeth Duw? J _ _ a

I ble'r anfonodd Duw ef? N _ _ _ _ e

Ond, buodd Jona yn anufudd a rhedodd i ffwrdd. Yn Jopa, daeth o hyd i long oedd ar fin hwylio i Tarsis. Cyn bod y llong wedi mynd yn bell, anfonodd Duw storm fawr.

Roedd y morwyr ofnus yn teimlo mai bai Jona oedd hyn i gyd. Roedd Jona wedi dweud wrthyn nhw ei fod yn addoli'r Arglwydd, Duw'r Nefoedd, a bod y storm wedi dod am iddo ef, Jona, fod yn anufudd.



Mae Duw yn gwybod popeth am ein pechodau ninnau hefyd, yn union fel roedd Ef wedi gweld yr holl bethau drwg a wnaeth trigolion Ninefe a Jona!

Mae'n bwysig iawn ein bod ni'n gwneud yr hyn mae Duw am i ni ei wneud!

Enw _____

DARLLENWCH
Jona 1: 10-17
a 2: 1-10

Mae'r stori hon yn sôn am **Sut y Gall Duw achub.**

Stori 2 Jona yn y Môr

Wrth i'r storm waethygu, gofynnodd y morwyr i Jona beth allen nhw wneud i'w thawelu. "Cydiwch ynof i a thaflwch fi i'r môr," atebodd Jona. Pan wnaeth y morwyr hyn, gostegodd y storm yn syth. Suddai Jona yn is ac yn is, ond roedd Duw wedi trefnu bod pysgodyn mawr yn ei lyncu. Buodd Jona ym mol y pysgodyn am dri diwrnod a thair noson.



Rhowch linell drwy'r rhif anghywir.

Buodd Jona ym mol y pysgodyn am 30 / 3 / 13 diwrnod a 3 / 13 / 23 noson.

Diolchodd i Dduw am achub ei fywyd! Roedd e'n cofio mor ofnadwy oedd bod mor agos at farw! Roedd wedi gweiddi ar yr Arglwydd yr eiliad honno ac roedd Ef wedi ei glywed a'i achub! "Yn wir", meddai Jona,

"I'r Arglwydd y perthyn gwaredu."

Lliwiwch y geiriau.

Yn union fel y paratôdd Duw ffordd i achub Jona, felly hefyd mae Ef wedi paratoi ffordd i ni gael maddeuant. Iesu Grist, a fu farw ar y groes drosom ni, yw'r Ffordd honno - ffordd arbennig Duw. Ydych chi wedi ymddiried Ynddo Ef ac wedi dweud "Diolch yn fawr"?

Enw

DARLLENWCH
Jona 3: 1-10

Mae'r stori hon yn sôn am:
Troi at Dduw.

Stori 3 Jona yn pregethu yn Ninefe



Siaradodd Duw â'r pysgodyn a chwydodd hwnnw Jona ar dir sych!

Yna, dywedodd Duw unwaith eto wrth Jona am fynd i Ninefe.

Y tro hwn, ufuddhaodd Jona! Pan gyrhaeddodd y ddinas ddrygionus, aeth ati i gyhoeddi neges Duw.

"Mewn deugain (pedwar deg) niwrnod, bydd Ninefe yn cael ei dinistrio," gwaeddodd.

Wrth i'r bobl ddrwg wrando ar y proffwyd, roedden nhw'n sylweddoli mor bechadurus oedden nhw ac fe gredon nhw yn Nuw.

Ysgrifennwch CYWIR neu ANGHYWIR:-

Byddai Ninefe yn cael ei dinistrio mewn 30 diwrnod.

.....

Credodd pobl Ninefe yn Nuw.

.....

Clywodd hyd yn oed y brenin neges Duw. Gorchmynnodd i'r holl bobl weddïo ar Dduw a throi o'u ffyrdd drygionus.

Pan welodd Duw ei bod hi'n flin iawn ganddyn nhw am eu pechodau, penderfynodd Ef beidio â'u cosbi.

Dyna i chi beth gwych! Roedd Jona yn gyntaf, ac wedyn dinas gyfan, wedi derbyn maddeuant am eu bod wedi edifarhau a chredu yn Nuw!

Enw

DARLLENWCH
Jona 4: 1-11

Mae'r stori hon yn sôn am **Cariad a charedigrwydd Duw.**

Stori 4 Jona yn gweddïo ar Dduw

Roedd Jona yn flin wrth Dduw am Iddo beidio cosbi trigolion Ninefe. Pan weddïodd Jona ar Dduw, meddai, "Rwy'n gwybod dy fod Ti'n Dduw graslon a thrugarog."

Wrth i Jona eistedd y tu allan i'r ddinas, gwnaeth gaban iddo'i hun rhag yr haul. Trefnodd Duw fod planhigyn mawr yn tyfu er mwyn rhoi mwy o gysgod iddo rhag yr haul crasboeth.

Yna, parodd Duw fod pryfyn yn dinistrio'r planhigyn. Yn y bore, wrth i'r haul godi, dechreuodd gwynt poeth chwythu. Teimlai Jona yn wirioneddol sâl.

Roedd e wedi bod yn ddiolchgar am y planhigyn, ond nawr roedd e'n ddig wrth Dduw unwaith eto.

Dywedodd Duw wrth Jona, "Yn union fel rwyt ti'n teimlo trueni dros y planhigyn, rwyf innau'n tosturio wrth bobl Ninefe, yn arbennig gan fod 120,000 ohonyn nhw'n blant ifanc."

Rhowch gylch o gwmpas y tri pheth yn y stori hon roedd Duw wedi eu creu ac yn eu rheoli.

gwynt **coeden** **neidr** **planhigyn** **pryfyn**

Mae Duw'n tosturio'n fawr wrth bobl, pa mor ddrwg bynnag y maen nhw. Mae Ef yn barod bob amser i faddau i'r rhai sy'n edifarhau ac yn credu Ynddo Ef.

Marciau
(i'w nodi gan yr arweinydd)

Cyfanswm

Cyfanswm Llawn

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services. P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar www.biblelinkit.com neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.
Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygwyd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts.
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o **www.amserbeibl.org**
Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120